



09/03/2026

Annwyl Gyfeillion,

Fel y gwyddoch, yn 2025 fe wnaeth Comisiynydd y Gymraeg gomisiynu cyngor cyfreithiol ynghylch cyfreithlondeb ystyried y gallu i siarad Cymraeg fel rhan o bolisi gosod tai cymdeithasol awdurdodau lleol. Roedd y cyngor hwn yn ymwneud â gofynion cyfreithiol Deddf Tai 1996.

Dros y flwyddyn diwethaf rydym wedi trafod ac egluro'r farn gyfreithiol rydym wedi'i derbyn, ac ar sail hynny ein safbwynt ni ar y mater. Er hynny, dros y flwyddyn diwethaf mae enw'r Comisiynydd wedi cael ei grybwyll mewn nifer o wahanol ddatganiadau, llythyrau ac eitemau newyddion, a hynny mewn ffordd sydd yn aml yn anghyflawn ac sydd felly â'r potensial i gamarwain. Rydym yn derbyn yn llwyr nad oes ymgais fwriadol i gamarwain, ond er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth pellach rydym yn gosod allan ein safbwyntiau ar y mater isod. Os bydd unrhyw gyfeiriad at gyngor cyfreithiol y Comisiynydd yn y maes hwn yn y dyfodol ein dymuniad yw ei fod yn adlewyrchu'r safbwynt isod yn ei gyfanrwydd:

- Mae'r farn gyfreithiol y gwnaethom ei derbyn yn nodi y gellir ystyried sgiliau Cymraeg fel rhan o bolisi gosod tai cymdeithasol. Ond, **ni all yr ystyriaeth ieithyddol hon fod yn drech na'r gofynion statudol sydd wedi'u nodi yn Neddf Tai 1996**. Mae'n rhaid i'r cynllun roi blaenoriaeth resymol i'r bobl a restrir yn adran 167(2) y Ddeddf uwchben eraill.
- Er y gellid felly gynnwys iaith fel un ystyriaeth, mae cyfyngiadau cyfreithiol i'r graddau y gellid gwneud hyn. Mae'r cyngor cyfreithiol yn rhoi enghraifft y byddai modd mewn egwyddor diwygio cynllun gosod tai i neilltuo 10% o stoc tai cymdeithasol Cyngor ar gyfer pobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn ôl y cyngor dylai canran isel o'r fath olygu fod y cynllun, yn ei gyfanrwydd, yn dal i roi blaenoriaeth resymol i'r bobl a restrir yn adran 167(2).
- Ar sail y cyngor cyfreithiol hwn nid yw'n glir i ni y byddai unrhyw ofynion ieithyddol fyddai'n gyfreithiol i'w cynnwys fel rhan o bolisi gosod yn debygol o wneud gwahaniaeth yng Ngwynedd. Mae Gwynedd eisoes yn blaenoriaethu pobl

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

sydd â chyswllt lleol, ac mae'r dystiolaeth sy'n bodoli yn dangos bod y gofyniad hwn eisoes yn golygu bod canran uchel o denantiaid tai cymdeithasol yn siarad Cymraeg. Canran sy'n debygol o fod yn sylweddol uwch na'r hyn y gellid ei gyflawni'n gyfreithiol drwy osod gofyniad ieithyddol fel rhan o'r polisi gosod.

Fel pawb sydd wedi derbyn copi o'r llythyr hwn, rydym yn pryderu ynghylch sefyllfa'r Gymraeg mewn ardaloedd fel Gwynedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr. Mae dadansoddi sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn yn cael sylw amlwg yn ein [hadroddiad 5 mlynedd](#) gafodd ei gyhoeddi ar 3 Mawrth. Yn yr adroddiad rydym yn gwneud nifer o argymhellion penodol ynghylch yr hyn y dylid ei flaenoriaethu er mwyn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn cynnwys materion pwysig fel gweithredu prif argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i sefydlu ardaloedd o arwyddocâd dwysedd uwch. Rydym yn ystyried sefydlu'r ardaloedd hyn fel cam cyntaf allweddol i ddatblygu a chyflwyno polisiâu fyddai'n gwarchod cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Byddwn yn cyhoeddi'r llythyr hwn ar ein gwefan ac wedi hynny nid oes bwriad gennym wneud sylw pellach am y mater hwn oni bai bod tystiolaeth newydd neu wybodaeth ychwanegol yn dod i'r amlwg. Byddwn wrth reswm yn parhau â'n gwaith yn dylanwadu ar bolisi ac yn ystyried yr ystod eang o faterion sydd yn dylanwadu ar hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones

Comisiynydd y Gymraeg

Copi at:

Cyngor Gwynedd
Cyfeillion Llŷn
Dyfodol i'r Iaith